PWYLLGOR PENODI

DYDD GWENER, 12 IONAWR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Carter, McKerlich, Huw Thomas a/ac Lynda Thorne |

1 : ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD - Penodi'r Cynghorydd Huw Thomas yn Gadeirydd y Pwyllgor Penodi hwn ar gyfer penodi Cyfarwyddwr – Cymunedau a Phobl

*(Cynghorydd Huw Thomas yn Cadeirio)*

2 : YMDDIHEURIADAU (OS OES UNRHYW RAI)

Anfonodd y Cynghorydd Bridgeman ei ymddiheuriadau oherwydd ymrwymiadau eraill. Cyflwynodd ei sylwadau ar bob cais i'r Cadeirydd eu hystyried fel rhan o'r broses.

3 : DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

4 : CYLCH GORCHWYL

I nodi'r Cylch Gorchwyl a ganlyn:-

*"Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol y Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor".*

5 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem busnes ganlynol ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth a eithrir fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod: -

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgeisydd yn dod yn gyflogai i'r awdurdod; a

Pharagraff 13 – Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.

6 : PENODI CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL - POBL A CHYMUNEDAU

Cafodd y Pwyllgor Penodi ei ymgynnull i ystyried rhestr hir yr ymgeiswyr ar gyfer penodi Cyfarwyddwr Corfforaethol – Pobl a Chymunedau.

Adolygodd y Pwyllgor chwech o geisiadau a gyflwynwyd ar gyfer y swydd hon ac ystyriodd sut yr oedd ymgeiswyr yn bodloni'r galluoedd hanfodol o'r Fframwaith Galluoedd Ymddygiadol a'r proffil rôl; a nododd yr ymgeiswyr hynny i fynd ymlaen i'r Ganolfan Asesu ar 23 Ionawr 2018.

PENDERFYNWYD –

(1) ymgeiswyr 3, 4, 5 a 6 eu symud ymlaen i'r Ganolfan Asesu ar 23 Ionawr 2018;

(2) y Pwyllgor ei ailymgynnull ar gyfer 29 Ionawr 2018 am 2.00pm er mwyn galluogi ystyried yr adborth o'r Ganolfan Asesu a chytuno a ddylid cyflwyno'r ymgeisydd i gael cyfweliad ar 6 Chwefror 2018.

## 7 : DISWYDDO (OS OES ANGEN)

Nid oedd angen unrhyw ddiswyddo dilynol fel rhan o'r broses greu rhestr hir.

## 8 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd Llun 29 Ionawr 2018 am 2.00pm yn Ystafell Gynadledda'r Arweinydd.